# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Maenclochog

Maenclochog
Clunderwen
Sir Benfro
SA66 7LB

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Maenclochog

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Y.G. Maenclochog |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 98 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 80 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 9 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 9.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 16.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 40.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 13/05/2024 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/05/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chroesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn elwa o berthnasoedd cadarnhaol â staff a'u cyfoedion. Mae'r pennaeth ac arweinwyr yn rhoi pwyslais clir ar les, perthyn, Cymreictod a chynhwysiant. Mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac i ymddwyn yn barchus wrth weithio a chwarae.

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau. Maent yn datblygu'u medrau llafar a darllen yn bwrpasol, ac mae llawer yn ysgrifennu'n briodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion hefyd yn datblygu medrau mathemategol priodol, ond nid ydynt yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon aml mewn gweithgareddau ymarferol a heriol.

Mae staff yn cynllunio profiadau diddorol sy'n cyfoethogi dysgu disgyblion, gan gynnwys perfformio, gweithgareddau creadigol, gwaith cymunedol, chwaraeon ac eisteddfodau. Mae hyn yn cyfrannu at hyder disgyblion, eu balchder yn eu hysgol a'u hymdeimlad o berthyn i'w cymuned. Mae athrawon yn darparu adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig yn arwain yn ddigon cyson at welliannau yng ngwaith disgyblion.

Mae staff yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn bwrpasol, ac mae'r cymorth hwn yn helpu llawer ohonynt i wneud cynnydd o'u mannau cychwyn. Mae gan ddisgyblion gyfleoedd gwerthfawr i leisio barn a chymryd cyfrifoldeb drwy'r Senedd a'r cabinetau gwahanol, sef pwyllgorau'r ysgol.

Mae arweinwyr wedi adnabod blaenoriaethau perthnasol. Er hyn, nid yw'r gwaith gwella bob amser yn dangos effaith ddigon clir ar safonau a chynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhan o ffederasiwn gydag Ysgol Gymunedol Brynconin.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Datblygu ymhellach y cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod profiadau dysgu yn herio disgyblion yn gyson a bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a theuluol sy'n rhan greiddiol o'i chymuned leol. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais clir ar greu amgylchedd diogel a chefnogol sy'n cefnogi lles disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion ac yn ymateb yn sensitif i anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn hapus wrth eu dysgu a'u chwarae ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar yn dda. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau eu cyfoedion ac yn ymateb yn briodol. Mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio ystod gyfoethog o eirfa wrth drafod eu profiadau.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer yn darllen gyda mynegiant clir ac yn canfod gwybodaeth o ystod o destunau yn fwriadus. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cymhwyso eu medrau darllen ar draws y cwricwlwm yn bwrpasol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn addas. Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau ysgrifennu cynnar wrth arbrofi â gwneud marciau. Maent yn adnabod llythrennau a seiniau ac yn eu cysylltu ag ysgrifennu geiriau syml yn gywir. Wrth i'w medrau ddatblygu, mae llawer yn defnyddio ystod dda o atalnodi, yn sillafu geiriau mwy cymhleth yn gywir ac yn defnyddio ansoddeiriau cyfoethog wrth greu disgrifiadau diddorol. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd iddynt ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau mathemateg. Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau mathemategol yn gyson; er enghraifft, maent yn casglu data'n bwrpasol. Erbyn brig yr ysgol, maent yn defnyddio ystod o ddulliau cyfrifo yn hyderus a chywir. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau digidol. Maent yn defnyddio'r medrau hyn i gefnogi eu dysgu mewn cyd-destunau perthnasol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i weithio'n ddiogel ar-lein.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn datblygu medrau corfforol cadarn dros amser, er enghraifft drwy gymnasteg, nofio, ystod o gemau chwaraeon a rhedeg traws gwlad. Mae staff yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw.

Mae staff yn darparu cyfleoedd bwriadus a chyfoethog i ddatblygu medrau creadigol disgyblion ar draws yr ysgol. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn perfformio dawns y gwenyn ar y buarth yn effeithiol gan gynllunio symudiadau a rheoli cyfarpar sain yn fwriadus. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa o ystod o gyfleoedd i berfformio a chystadlu, fel mewn ymarferion i'r eisteddfodau, sy'n cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu eu hyder, eu medrau cymdeithasol a'u balchder yn eu diwylliant a'u hunaniaeth Gymreig.

Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o ddiwylliannau eraill drwy gymharu eu bywydau â phlant yn Lesotho. Mae cyfleoedd cyson er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth ysbrydol a moesol, gan gynnwys ynglŷn a traddodiadau am grefyddau'r byd. Mae staff hefyd yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn werthfawr, gan gynnwys eu dealltwriaeth o nodweddion perthnasoedd iach.

Mae staff wedi sefydlu perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion sy'n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau i gefnogi ymddygiad disgyblion yn fedrus, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n bwrpasol â'u dysgu, yn cydweithio'n dda ac yn dangos parch at ei gilydd. Mae staff yn defnyddio technegau medrus i holi disgyblion yn dreiddgar er mwyn cefnogi disgyblion i adalw dysgu blaenorol, eu hannog i feddwl yn ddyfnach am eu dysgu a'u herio i gynnig ymatebion estynedig.

Mae cyflymder bwriadus i'r dysgu ac mae athrawon yn annog a chefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn cydweithio'n bwrpasol i ddarparu cwricwlwm sy'n cynnig ystod o brofiadau cyfoethog a diddorol sy'n ennyn diddordeb ac yn diwallu anghenion llawer o ddisgyblion yn dda. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau bob tro'n herio ychydig o ddisgyblion yn ddigon effeithiol.

Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu adborth llafar amserol sy'n cefnogi llawer o ddisgyblion i wybod beth maent wedi ei wneud yn dda. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig gan athrawon yn ddigon pwrpasol ac, o ganlyniad, nid yw'n cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn ddigon cyson.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn cydweithio'n bwrpasol ag amrywiaeth o asiantaethau ac yn gweithredu ar arweiniad a chyngor arbenigol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser. Mae'r ysgol hefyd yn ymateb yn fwriadus i anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol bron pob disgybl drwy gynnig ymyraethau sy'n eu galluogi i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu. Mae'r cynorthwywyr dysgu yn aelodau gwerthfawr o dîm yr ysgol ac yn gweithio'n ddiwyd a medrus wrth gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau.

Elfen gref o'r ddarpariaeth yw'r cyfleoedd eang ac ystyrlon i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain. Er enghraifft, mae bron pob disgybl yn aelod o Gabinet neu'n cynrychioli o fewn Senedd yr ysgol. Mae hyn yn datblygu eu hyder, eu medrau arwain a'u gallu i ddylanwadu'n effeithiol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r 'Darllenwyr Dawnus', er enghraifft, wedi trefnu gweithgareddau buddiol sydd wedi hybu agweddau mwy cadarnhaol at ddarllen ymysg eu cyfoedion.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i fonitro cyfraddau prydlondeb a phresenoldeb disgyblion. Maent yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da ac yn cydweithio'n agos â theuluoedd a'r swyddog lles, fel y bo'n briodol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ofalgar a phwrpasol ac yn hyrwyddo gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae'r weledigaeth hon yn rhoi pwyslais amlwg ar les, perthyn, Cymreictod, cynhwysiant a chodi dyheadau disgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol yn meithrin ethos cadarnhaol lle mae staff yn adnabod disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac yn hyrwyddo balchder disgyblion yn eu hysgol a'u cymuned. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cynhwysol a chefnogol. Maent yn rhoi sylw priodol i les disgyblion ac yn sicrhau bod staff yn ymateb yn sensitif i anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod briodol o weithgareddau hunanwerthuso sy'n helpu i adnabod nifer o gryfderau'r ysgol a chychwyn blaenoriaethu'r agweddau sydd angen eu gwella. Ar y cyfan, maent yn cynllunio camau perthnasol i fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu. Yn gyffredinol, mae hanes priodol o welliant yn yr ysgol, er bod meysydd fel adborth, her, ac ysgrifennu yn parhau i ddatblygu.

Mae'r ysgol yn rhan o ffederasiwn gydag Ysgol Brynconin, sy'n golygu eu bod yn cydweithio'n agos ar nifer o feysydd allweddol. Mae arweinwyr yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn briodol ac yn cynnwys staff mewn agweddau ar waith gwella'r ffederasiwn. Mae hyn yn helpu i feithrin ymdeimlad o waith tîm ac yn cefnogi staff i gyfrannu at flaenoriaethau'r ysgolion. Mae dysgu proffesiynol yn cysylltu'n briodol â nifer o flaenoriaethau'r ffederasiwn. Mae staff yn cael cyfleoedd buddiol i gydweithio, cael hyfforddiant a datblygu agweddau ar ddarllen, ADY, lles ac addysgeg.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac yn ymwybodol o brif flaenoriaethau'r ffederasiwn. Mae llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth berthnasol am ystod dda o waith yr ysgol ac yn cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau monitro. Ar y cyfan, mae llywodraethwyr yn cyflawni eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn briodol ond nid ydynt yn ddigon treiddgar bob amser wrth herio effaith camau gwella ar safonau a chynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn meithrin partneriaethau hynod gadarnhaol â rhieni a'r gymuned. Mae'r cysylltiadau hyn yn cefnogi lles disgyblion, yn cyfoethogi eu profiadau ac yn cryfhau'r

berthynas rhwng yr ysgolion a’u cymunedau. Mae rhieni’n gwerthfawrogi natur ofalgar y staff a’r cyfleoedd eang sydd ar gael i ddisgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2026